

*Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin**Disgrifiad o'r modiwl*

O apiau, ffonau a systemau busnes i'r hyn a gaiff ei wisgo, y we a Rhyngwrwd y Pethau, mae cynnyrch rhyngweithiol yn rhan o'n bywydau beunyddiol. Ond sut y gall rhyngweithiadau gael eu dylunio i gyflawni eu diben orau, cynnig profiadau da i ddefnyddwyr (UX), a bod yn hawdd eu defnyddio, yn llawn boddhad ac yn hwyl? Sut y gall rhyngweithiadau gael eu gwerthuso'n effeithiol pan fo eu defnyddwyr, dibenion a chyd-destunau yn amrywio cymaint? Yn y modiwl hwn dilynwn drywydd sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr lle bydd myfyrwyr yn dysgu am y ffactorau, technegau, offer a theorïau sy'n effeithio ar ddylunio rhyngweithiadau, ac yn meithrin sgiliau ymarferol a fydd yn eu galluogi i ddadansoddi, dylunio, a gwerthuso cynhyrchion rhyngweithiol ein bywydau beunyddiol.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd gyntaf mewn pwnc cysylltiedig fel cyfrifiadureg, dylunio cynnyrch, seicoleg neu ergonomeg, gyda chryn ffocws ar Ddyluniadau Rhyngweithiol
neu
- dystiolaeth o gymhwyso technegau Dyluniadau Rhyngweithiol, fel dylunio rhyngwyneb, datblygu prototeip, cynnwys defnyddwyr wrth ddatblygu cynnyrch, gwerthuso system neu gynnyrch neu ddadansoddi gofynion, mewn amgylchedd masnachol neu ymchwil
neu
- brofiad o addysgu pynciau sy'n ymwneud â Dyluniadau Rhyngweithiol fel HCI, ffactorau dynol neu ddylunio cynnyrch mewn addysg uwch.

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	3.5